

AIDAN, sant. Bu fyw yn y 6ed ganrif.

Enw: Aidan
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: sant.
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Hywel David Emanuel

Sonnir amdano hefyd wrth yr enwau Aidus, Maidoc, a Madoc. Dengys ei 'Fuchedd,' fel y mae yn MS. Cotton. Vesp. A. xiv yn yr Amgueddfa Brydeinig, a hefyd fel y'i ceir yn Acta *Sanctorum* Colgan, mai yn Iwerddon y gwnaeth ei brif waith fel sant. Ond treuliodd ei fywyd cynnar yng ngorllewin Deheubarth Cymru, lle y bu'n ddisgybl i **Ddewi Sant**, a lle hefyd y cedwir ef mewn cof yn enw llawer pentref ac yng nghyflwyniad llawer eglwys. Bu'r cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon yn agos iawn yn Oes y Seintiau. Yn ei 'Fuchedd' cofnodir hanesion am y gwyrthiau a gyflawnwyd gan Aidan yn amser ei ymwneud â **Dewi**. Dywedir iddo hefyd, yn ddiweddarach yn ei fywyd, ddychwelyd i Gymru ar dro i weld ei hen athro. Ym 'Mucedd' **Dewi Sant** a gyfansoddwyd gan **Rygyfarch** ceir sôn am ragor o weithredoedd nerthol y bu i Aidan ran ynddynt, ac ym 'Mucedd' **Cadog Sant** gellir darllen fod Aidan yn bresennol ar adeg yr anghydfod rhwng **Cadog** a'r **brenin Arthur**. Yn ôl trefn llyfrau gwasanaeth yr Eglwys Wyddelig telir gwrogaeth i Aidan Sant ar y dydd olaf o fis Ionawr.

Awdur

Hywel David Emanuel, (1921 - 1970)

Ffynonellau

Baring-Gould a John Fisher, *The Lives of the British Saints: the saints of Wales and Cornwall and such Irish saints as have dedications in Britain*, 116-26

Colgan, *Acta Sanctorum Hiberniae* (1947), 208-23

Rees, *Lives of the Cambro British Saints of the fifth and immediate succeeding centuries, from ancient Welsh and Latin mss. in the British Museum, and elsewhere, with English translations, and explanatory notes* (Llandoverly 1853), 232-50

Stanton, *A Menology of England and Wales, or, brief memorials of the ancient British and English Saints, arranged according to the calendar together with the Martyrs of the 16th and 17th Centuries* (1887), 42

O'Hanlon, *Lives of the Irish saints, with special festivals, and the commemorations of holy persons, compiled from calendars, martyrologies, and various sources relating to the ancient Church history of Ireland* (1875), i, 521-80

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [31618132](#)

Wikidata: [Q404099](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

Yrannu

Arddull APA

x

Emanuel, H. D., (1953). AIDAN, sant. Bu fyw yn y 6ed ganrif.. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 12 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-AIDA-N00-0500>

Cyfraniadur

Preifatrwydd a Chwci
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government